

## Teithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

### **Nofelau dosbarth:**

**Cymraeg:** Rhyfel Sam gan Glenys Mair Lloyd

**Saesneg:** Friend or Foe by Michelle Morpurgo

**Llafar** - Creu ac anodi fidio ffeithiol ar aelod pwysig o'u dewis o'r rhyfel.

**Ysgrifennu** - Ffurfiâu: Ysgrifennu sgrïpt yn seiliedig ar nofelau'r dosbarth, Erthygl bapur Newydd yn cyhoeddi'r rhyfel, Dyddiadur o safbwynt milwr.

### **Elfennau Llyth ar draws y Cwricwlwm:**

- ysgrifennu cyflwyniad, datblygu cyfres o syniadau a diweddglô
- addasu'r hyn y maent yn ei ysgrifennu yn ôl y diben a'r darllenydd, gan ddewis geiriau'n addas, e.e. iaith ddisgrifiadol ac iaith berswadiol

## Techyd a Lles

Bydd gwersi Ymarfer corff tymor yma yn canolbwyntio ar ddatblygu ffitrwydd a mwynhad o chwaraeon.

Pel droed gyda Gethin ar Ddydd Llun.  
Gweithgareddau'r URDD ar Ddydd Gwener.

Ymarferion myfyrio / ioga / dawnsio ar GoNoodle.

Clwb dal ati.

"Rhyfel ac Heddwch"  
(Yr Ail rhyfel byd)  
"War and peace"  
(World war II)  
CA2

## Y Dyniaethau

**Hanes:** Hanes yr Ail Rhyfel byd. Bydd y prif ffocws yn canolbwyntio ar sut a pham ddechreuodd y rhyfel, Pwy oedd rhai o brif aelodau'r rhyfel a'r rol oeddynt yn chwarae, pwysigrwydd propaganda, magnelau a ddefnyddwyd, rol merched yn y rhyfel, bywyd yn y ffosydd, y blits a dogni.

**Daearyddiaeth:** Ble oedd y rhyfela yn digwydd, pa wledydd oedd yn cymryd rhan a beth oedd eu rol?

**Addysg Grefyddol:** Bydd y prif ffocws tymor yma ar Iddewiaeth.

## Celfyddydau Mynegiannol

**Celf:** Efelychu gwaith artistiaid fel Henry Moore ac L.S Lowry. Bydd y plant yn gael cyfle i wneud posteri propaganda eu hunain ac yn arbrofi gyda chuddliw.

**Cerddoriaeth:** Hanes Glen Miller a'r 'Big Band era'.

## Mathemateg a Rhifedd

Byddwn yn dilyn trefn llyfr Target your maths tymor yma sef: rhif ac adio a thynnu 10au, 100 a miloedd.

Bydd ffocws tymor yma ar ddatblygu dulliau adio a thynnu yn y pen a dulliau ysgrifenedig o adio a thynnu hir.

**Mathletics:** (30 munud) o leiaf 1 waith yr wythnos.

### **Rhifedd ar draws y cwricwlwm:**

trosglwyddo sgiliau mathemategol i amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd.

**Gwaith Cartref:** Bydd gwaith cartref iaith neu rhifedd bob yn ail yn gael ei rhoi bob dydd Gwener a bydd disgwyl ei ddychwelyd erbyn y Dydd Mawrth wedyn. Bydd cofnodion darllen yn mynd adref hefyd a mae disgwyl i bob plenty ddarllen am o leiaf 10 munud dros y penwythnos.

## Gwyddoniaeth a Thechnoleg

**Gwyddoniaeth:** Sain a goleuni. Byddwn yn edrych ar sut mae sain a goleuni yn teithio (Air raid sirens).

**Arbrawf:** Arbrofi gyda wahanol deunyddiau i weld be sydd mwyaf effeithiol fel 'blackout blind'.

**TGCh:** Creu animeiddiad yn defnyddio storyjumper, defnyddio'r sgrin werdd i gyhoeddi'r rhyfel fel angora newyddion, defnyddio ACCE i greu cyflwyniadau.

### **Dylunio a thechnoleg:**

Defnyddio gwahanol deunyddiau ailgylchu er mwyn adeiladu tanc.

Bydd ymarfer corff bob dydd Mercher a mae disgwyl i bob plentyn ddod a dillad ac esgidiau addas.